

## Hygyrchedd Cyfeiryddion Teledu ar y Sgrin, (EPGs)

Gwelliannau arfaethedig ar gyfer pobl â namau ar eu golwg

---

### **YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 4 Rhagfyr 2017

Dyddiad Cau ar gyfer Ymatebion: 6 Chwefror 2018

# Gair am y ddogfen hon

---

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn rhoi amlinelliad o gynigion Ofcom i ddiwygio'r Cod Ymarfer ar gyfer cyfeiryddion teledu ar y sgrin, **(EPGs)**, i'w gwneud yn haws eu defnyddio i'r bobl sydd â namau ar eu golwg.

Fe wnaeth Ofcom gyhoeddi ymgynghoriad cychwynnol yn 2015 ac mae wedi ystyried yr ymatebion o'r ymgynghoriad hwnnw, a gyda ffactorau perthnasol eraill, wedi datblygu'r cynigion ag amlinellir yn y ddogfen hon.

Fel sy'n arferol gyda dogfennau cyhoeddedig eraill gan Ofcom, mae'r ymgynghoriad hwn ar gael ar wefan Ofcom mewn fersiwn PDF sy'n cydweddu â'r rhan fwyaf o raglenni darllen-sgrin.

Rydym yn gwahodd rhanddeiliaid i ymateb i'r ymgynghoriad hwn erbyn 6 Chwefror 2018.

# Cynnwys

---

## Adran

1. Crynodeb

1

# 1. Crynodeb

## Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio barn ar newidiadau arfaethedig Ofcom i'r Cod Ymarfer ar gyfeiryddion rhaglenni electronig (cyfeiryddion teledu ar y sgrin, a elwir yn 'EPGs') i'w gwneud yn haws eu defnyddio i'r nifer cynyddol o bobl sydd â nam ar eu golwg.<sup>1</sup>
- 1.2 Dylanwadwyd ar ein hymgynghoriad gan ymatebion i alwad am fewnbwn y cyhoeddom yn 2014<sup>2</sup>, ymgynghoriad blaenorol y cyhoeddom yn 2015<sup>3</sup> (**ymgynghoriad 2015**) yn ogystal â thrafodaethau ag amrywiol randdeiliaid ers hynny. Hoffem ddiolch i'r ymatebwyr am eu cyfraniadau i'r alwad am fewnbwn, i ymgynghoriad 2015 ac i'r cyfathrebiadau diweddar, sydd wedi helpu i daflu goleuni ar y materion oedd dan sylw gennym.

## Beth yw'r problem?

- 1.3 Mae tua dwy filiwn o bobl â nam ar eu golwg yn y DU, ac maent yn gwyllo'r un faint o deledu â phawb arall. Serch hynny, yn wahanol i bawb arall, maent yn cael trafferth sylweddol defnyddio EPGs. Gall eu dewis o ran beth i'w wyllo fod yn gyfyngedig, a hynny'n ddiangen, gan fod defnyddio cyfeirydd rhaglenni teledu ar y sgrin yn cymryd llawer iawn o amser ar y gorau, ac weithiau'n amhosibl.
- 1.4 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae rhai EPGs wedi dechrau cynnwys nodweddion hygyrchedd sy'n galluogi pobl â nam ar eu golwg i'w defnyddio'n well. Ymysg yr enghreifftiau mae lluniau cyferbyniad uchel, y gallu i chwilio am raglenni â disgrifiadau sain, y gallu i wneud rhannau o'r llun yn fwy neu gynyddu maint y testun, a dewis cael testun yr EPG (fel rhifau sianeli a disgrifiadau rhaglenni) wedi'i ddarllen yn uchel.
- 1.5 Mae'r nodweddion hyn yn helpu pobl sydd ag amrywiaeth eang o namau ar eu golwg, gan amrywio o'r rheini â golwg aneglur neu gyfyngedig i'r rheini heb olwg defnyddiol o gwbl. Yn anffodus, ychydig iawn o EPGs sy'n cynnwys yr holl adnoddau hyn, ac weithiau mae angen gwella'r adnoddau i gynyddu'r manteision i ddefnyddwyr.

## Beth yw'r ateb sy'n cael ei gynnig?

- 1.6 Rydym yn cynnig diwygio'r Cod Cyfeirydd Rhaglenni Electronig er mwyn i bobl â nam ar eu golwg allu manteisio, yn y dyfodol, ar nodweddion hygyrchedd ychwanegol a fydd yn eu helpu i ddefnyddio EPGs yn yr un modd â'r rheini heb anabledau o'r fath.
- 1.7 Yn benodol, byddai'r newidiadau arfaethedig i God Cyfeirydd Rhaglenni Electronig yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr EPGs wneud ymdrechion rhesymol i sicrhau, cyn belled ag

---

<sup>1</sup> Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio'r term 'nam ar eu golwg' i gyfeirio at y rheini sy'n rhannol ddall a'r rheini sy'n gwbl ddall.

<sup>2</sup> *Speaking TV programme guides: would they help people with visual impairments, and are they feasible?* (CFI), Ofcom, Gorffennaf 2014 (<http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/speaking-tv/>)

<sup>3</sup> *What's on the telly? Proposed improvements to EPG accessibility for people with visual impairments*, Ofcom, Gorffennaf 2016 (<https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/epg-accessibility>)

y bo modd yn ymarferol, bod eu EPGs (fel y ceir mynediad atynt drwy dderbynyddion teledu defnyddwyr safonol) yn cynnwys dewisiadau i ddefnyddwyr allu gwneud y canlynol:

- a) darparu testun sydd ei angen i lywio drwy'r EPG a darparu gwybodaeth am sianeli a rhaglenni sydd yn yr EPG ar lafar (swyddogaeth '**llafar-i-destun**') neu '**TTS**');
- b) amlygu neu lunio rhestr ar wahân o'r rhaglenni sydd â disgrifiad sain ac arwyddo (swyddogaeth '**hidlo neu amlygu**');
- c) addasu arddangosiad y wybodaeth EPG fel bod modd ei wneud yn fwy, neu wneud y testun yn fwy (swyddogaeth '**chwyddo**');
- d) newid rhwng lluniau diofyn a rhai 'cyferbyniad uchel'<sup>4</sup> ('**lluniau cyferbyniad uchel**').

1.8 Byddai'r newidiadau arfaethedig i'r Cod Cyfeirydd Rhaglenni Electronig yn berthnasol i EPGs sydd ar gael drwy bob derbynnydd teledu a ddatblygir o 2018 ymlaen.

1.9 Bydd y newidiadau arfaethedig hyn yn cael eu cefnogi gan anghenion adrodd yn ôl cadarn. Bydd adroddiadau blynyddol am hygyrchedd yr EPG yn sicrhau bod gweithrediad y nodweddion hygyrchedd yn cael ei fonitro'n effeithiol ac yn rhoi'r wybodaeth berthnasol i ddefnyddwyr perthnasol am hygyrchedd ei EPG.

## Pam rydym yn ail-ymgyngori?

1.10 Rydym yn cyhoeddi ail ymgyngoriad yn y cyswllt hwn er mwyn i'n cynigion allu ystyried:

- a) yr ymatebion i ymgyngoriad 2015;
- b) datblygiadau yn y farchnad a datblygiadau technolegol ers 2015;
- c) datblygiadau o ran arferion a dewisiadau defnyddwyr; a
- d) datblygiadau rheoleiddio a chyfreithiol byd-eang.

## Y camau nesaf

1.11 Mae'r ddogfen hon yn esbonio ein rhesymeg a'r newidiadau rydym yn bwriadu eu gwneud i'r Cod Cyfeirydd Rhaglenni Electronig. Byddem yn falch o gael safbwyntiau ar y cynigion hyn erbyn **5pm ar Ddydd Mawrth, 6 Chwefror 2018**. Byddwn yn ystyried pob ymateb a gwybodaeth berthnasol arall cyn dod i benderfyniad.

1.12 Os, ar ôl ymgyngori, ein bod yn bwriadu rhoi'r newidiadau arfaethedig ar waith, byddwn yn rhoi gwybod i'r Comisiwn Ewropeaidd ac i Aelod-wladwriaethau eraill am y newidiadau, ynghyd â datganiad esboniadol (ar ffurf drafft) yn nodi'r rhesymau drostynt, a hynny'n unol â Chyfarwyddeb Safonau Technegol yr UE (Erthygl 5)<sup>5</sup>. Bydd hyn yn rhoi cychwyn ar gyfnod segur statudol o dri mis dan Gyfarwyddeb Safonau Technegol yr UE (Erthygl 6). Byddwn hefyd yn cyhoeddi copi o'r ddogfen hysbysu ar ein gwefan.

---

<sup>4</sup> Lluniau â chymhareb cyferbyniad o ddim llai na 7:1, fel y nodir yng nghanllaw 1.46 Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We 2.0. Gweler: <http://www.w3.org/TR/WCAG20>

<sup>5</sup> Cyfarwyddeb (UE) 2015/1535 Senedd a Chyngor Ewrop dyddiedig 9 Medi 2015 sy'n pennu gweithdrefn ar gyfer darparu gwybodaeth ym maes rheoliadau technegol a darparu rheolau ynghylch gwasanaethau'r Gymdeithas Wybodaeth; [http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=OJ:JOL\\_2015\\_241\\_R\\_0001](http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=OJ:JOL_2015_241_R_0001)

- 1.13 Yn amodol ar yr ymatebion i'n hymgyngoriad a/neu gan y Comisiwn Ewropeaidd neu Aelod-wladwriaethau eraill, rydym yn bwriadu cyhoeddi penderfyniad terfynol erbyn gwanwyn 2018.

## **Y cyhoeddiad mewn fformatau eraill**

- 1.14 Byddwn yn ystyried pob cais rhesymol ar gyfer cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori hon mewn fformatau neu ieithoedd eraill. Os hoffech chi wneud cais, gallwch ffonio ein Tîm Cyngori o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 09:00 a 17:00 ar 020 7981 3040 neu 0300 123 3333. Os ydych chi'n fyddar neu â nam ar eich lleferydd, gallwch chi ddefnyddio ein rhifau ffôn testun, sef 020 7981 3043 neu 0300 123 2024.